

Adolygiad o'r Farchnad Band Cul

Marchnadoedd, penderfyniadau ynghylch pŵer yn y farchnad ac atebion ar gyfer terfynu galwadau cyfanwerthol, tarddiad galwadau cyfanwerthol a marchnadoedd mynediad band cul cyfanwerthol

DATGANIAD

Cyhoeddwyd: 30 Tachwedd 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae Adolygiad 2017 o'r Farchnad Band Cul yn berthnasol i bum marchnad gyfanwerthol sy'n sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn llais sefydlog. Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar effeithiolrwydd cystadleuaeth a pha reoleiddio, os o gwbl, sy'n briodol i sicrhau cystadleuaeth effeithiol a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr preswyl a busnes.

Yng ngoleuni'r adolygiad hwnnw, rydyn ni wedi penderfynu rheoleiddio BT a (yn Ardal Hull) KCOM mewn tair marchnad mynediad cyfanwerthol; llinellau ffôn sefydlog analog cyfanwerthol (y llinellau safonol sy'n cael eu defnyddio gan gwsmeriaid preswyl a busnes) a dwy farchnad sy'n galluogi darparu gwasanaethau ffôn digidol i fusnesau. Byddwn yn parhau i reoleiddio darpariaeth gyfanwerthol BT a KCOM o alwadau dros y llinellau hynny. Wrth ystyried y dadansoddiad o'r farchnad a wnaed yn yr adolygiad hwn, rydyn ni wedi penderfynu lleihau'r rheoleiddio cyfanwerthol rydyn ni'n ei wneud yn y marchnadoedd hyn ar hyn o bryd yn sylweddol.

Rydyn ni hefyd wedi penderfynu rheoleiddio terfynu galwadau sefydlog cyfanwerthol, trefniant pan fydd un darparwr telegyfathrebu yn codi ar ddarparwr arall am derfynu galwadau ar ei rwydwaith. Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i bawb sy'n darparu galwadau i rifau daearyddol yn y DU (rhifau sy'n dechrau gyda 01 a 02).

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol 1

1. Crynodeb gweithredol


- 1.1 Yn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol (Adolygiad Strategol)¹, roedden ni wedi tynnu sylw at sut mae'r sector telegyfathrebiadau wedi newid ers ein hadolygiad strategol cyntaf yn 2005. Mae cystadleuaeth wedi sicrhau gwasanaethau llais newydd ac wedi cynyddu'r dewis i gwsmeriaid adwerthu: mae gan fwyafrif mawr o gartrefi sydd â llinell dir (88%) nawr gysylltiad band eang sefydlog sy'n cyd-fynd ag ef, gyda mwy a mwy yn dewis prynu hyn fel rhan o fwndel gyda gwasanaeth ffôn a theledu yn aml.²
- 1.2 I raddau helaeth mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ein gwaith rheoleiddio o'r marchnadoedd cyfanwerthol sylfaenol, ac mae dadfwndelu rhwydwaith lleol BT o linellau copr (LLU) wedi hybu cystadleuaeth rhwydwaith i BT gan ddarparwyr gan gynnwys Sky a TalkTalk. Mae hyn ochr yn ochr â chyflwyno rhagor o rwydwaith cebl Virgin Media, wedi golygu bod mwy o fwndeli adwerthu ar gael a dewis ehangach ohonyn nhw sy'n cynnwys llais a band eang.
- 1.3 Yn y cyfamser, ym marn nifer o ddefnyddwyr, mae modd newid mwy rhwng gwasanaethau sefydlog a symudol. Er bod gan y rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yn y DU linellau ffôn sefydlog o hyd, mae pwysigrwydd perthnasol galwadau llais sefydlog wedi disgyn. Rydyn ni wedi gweld twf parhaus mewn galwadau symudol (fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 1.1 isod). Mae defnyddio gwasanaethau llais ar y rhynggrwyd (IP), yn enwedig gwasanaethau dros y rhynggrwyd (OTT) fel Skype a WhatsApp, hefyd yn cynyddu.³

¹ Ofcom, 2016. *Adolygiad Strategol o Gyfathrebu Digidol*

² Ofcom, 2017. *Traciwr Technoleg data H1 2017*

³ Yn y cyd-destun hwn, mae gwasanaethau dros y rhynggrwyd yn galluogi defnyddwyr i wneud a derbyn galwadau llais ar ddyfeisiau fel ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron personol drwy ddefnyddio cysylltiad â'r rhynggrwyd.

Ffigur 1.1: Niferoedd o darddiadau galwadau sefydlog a symudol (biliynau o funudau)



Ffynhonnell: Ofcom, Adroddiadau ar y Farchnad Gyfathrebu.

- 1.4 Dywedodd ein Hadolygiad Strategol y byddem yn ystyried i ba raddau gallwn ni ddareoleiddio'r marchnadoedd llais sefydlog traddodiadol, a disodli rheoleiddio band cul gyda diogelwch wedi'i dargedu ar gyfer y defnyddwyr hynny sydd dal ei angen. Roedden ni wedi egluro ein bod yn disgwyl yn y tymor hirach y bydd gwasanaethau ffôn llais traddodiadol yn cael eu disodli gan wasanaethau llais a fydd yn cael eu cludo dros fand eang, ac y bydd hyn yn cael ei hwyluso gan y gallu i brynu band eang heb wasanaethau llais traddodiadol.⁴
- 1.5 Mae'r datganiad hwn yn nodi casgliadau ein hadolygiad o'r marchnadoedd cyfanwerthol ar gyfer gwasanaethau llais a llinellau, ac mae'n gam pwysig o ran cyflawni'r strategaeth hon.
- 1.6 Yn gryno, wrth ystyried y dadansoddiad o'r farchnad a wnaed yn yr adolygiad hwn, rydyn ni wedi penderfynu lleihau'r rheoleiddio cyfanwerthol rydyn ni'n ei ddefnyddio gyda BT yn y marchnadoedd hyn yn sylweddol. Yn benodol, rydyn ni'n gwneud y canlynol:

⁴ Ofcom, 2016. *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, paragraff 8.7

- dileu'r rheolaethau ffioedd ar sail costau ar gyfer llinellau ffôn sefydlog cyfanwerthol a galwadau sy'n cael eu gwneud dros y llinellau hynny (sy'n cael eu galw yn darddiad galwadau cyfanwerthol);
- dileu rheoleiddio o'r cyflenwad newydd o linellau llais digidol (sy'n cael eu galw yn ISDN), ond gan gadw rheoleiddio i amddiffyn defnyddwyr presennol y gwasanaethau hyn; a
- dileu'r rheoleiddio 'dim gwahaniaethu gormodol' sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar y telerau mae modd i BT eu defnyddio i werthu tarddiad galwadau cyfanwerthol i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill.

1.7 Efallai na fydd angen rheoleiddio gwasanaethau llais yn y dyfodol. Yn ein hadolygiad nesaf, efallai y bydd hi'n bosibl i ni ddileu rheoleiddio llinellau a galwadau cyfanwerthol yn llwyr, os byddwn yn gweld bod cystadleuaeth yn cyflawni ar gyfer defnyddwyr neu oherwydd bod mathau eraill o ddiogelwch yn ddigonol neu'n briodol. Fodd bynnag, yn yr adolygiad hwn o'r farchnad, wrth ystyried pŵer sylweddol BT yn y farchnad, bydd dal angen rheoleiddio gwasanaethau band cul BT er mwyn cefnogi cystadleuaeth ar gyfer rhai grwpiau o ddefnyddwyr ac mewn meysydd lle mae seilwaith cyfanwerthol arall wedi cael llai o effaith ar gystadleuaeth.

1.8 Rydyn ni'n poeni'n benodol nad ydy cystadleuaeth yn gweithio'n dda ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau llais sefydlog yn unig, sydd wedi gweld effaith oherwydd cynnydd sylweddol mewn prisiau rhent llinellau adwerthol dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon am y grŵp hwn, rydyn ni wedi cynnal adolygiad ar wahân o wasanaethau ffôn llinell sefydlog yn unig ac wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch cynigion mewn perthynas â'r farchnad honno ym mis Chwefror 2017. Ar 26 Hydref 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi canlyniad yr adolygiad hwnnw. Mae BT yn gostwng prisiau rhent llinell ar gyfer ei gwsmeriaid llais yn unig £7 y mis ac yn rhewi prisiau go iawn y llinellau a'r galwadau hyn ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n rhoi sylw i'r pryderon roedden ni wedi'u nodi yn ein hymgyngghoriad ym mis Chwefror.⁵

Ein penderfyniadau

Y Cefndir

1.9 Mae Adolygiad 2017 o'r Farchnad Band Cul yn edrych ar y pum marchnad ganlynol:

- llinellau cyfnewid analog sefydlog cyfanwerthol;
- ISDN30 cyfanwerthol;
- ISDN2 cyfanwerthol
- tarddiad galwadau cyfanwerthol; a

⁵ Ofcom 2017, Adolygiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau ffôn ar wahân - canfyddiadau dros dro, Datganiad: Adolygiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau ffôn llinell dir yn unig.

- terfynu galwadau cyfanwerthol.⁶
- 1.10 Mae llinellau cyfnewid analog sefydlog (WFAEL) yn llinellau sefydlog safonol sy'n cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr preswyl a busnes. Mae ISDN yn wasanaeth llinell cyfnewid digidol sy'n gallu delio â gwasanaethau ffôn a rhai gwasanaethau data. Mae ISDN30 yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan fusnesau mwy sy'n gofyn am fwy nag un llinell, er enghraifft canolfannau galwadau. Mae ISDN2 yn cefnogi dwy sianel llais neu ddata band cul (gallai defnydd data o'r fath gynnwys taliadau cerdyn neu beiriannau ffacs, er enghraifft). Yn y datganiad hwn, rydyn ni'n cyfeirio at y marchnadoedd llinellau cyfnewid analog sefydlog, ISDN30 cyfanwerthol ac ISDN2 cyfanwerthol gyda'i gilydd fel marchnadoedd mynediad band cul.
- 1.11 Mae tarddiad galwadau cyfanwerthol yn wasanaeth ategol i ddarparu llinellau mynediad band cul, sy'n galluogi defnyddwyr i wneud galwadau dros y llinellau hynny.
- 1.12 Mae terfynu galwadau cyfanwerthol yn wasanaeth cysylltiad sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwr telegyfathrebiadau sefydlog lle bydd eu cwsmer yn derbyn galwad gan rwydwaith gwahanol.

Marchnadoedd mynediad band cul

Llinellau cyfnewid analog sefydlog cyfanwerthol

- 1.13 Mae defnyddwyr preswyl a busnes yn parhau i ddangos ymlyniad cryf i linellau sefydlog, ac mae nifer y llinellau sefydlog wedi aros yn weddol sefydlog er gwaethaf cynnydd sylweddol ym mhrisiau rhent llinellau adwerthol a gostyngiad yn nifer y galwadau.
- 1.14 Mae ein dadansoddiad yn awgrymu nad ydy gwasanaethau llais a symudol sy'n cael eu darparu dros IP yn yr un farchnad â llinellau sefydlog. Rydyn ni felly wedi diffinio marchnad ar gyfer llinellau cyfnewid analog sefydlog, sy'n cynnwys pob llinell gopr, llinellau cebl a llinellau ffibr sydd wedi'u galluogi ar gyfer llais.
- 1.15 Mae gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad hon o hyd yn y DU ar wahân i Ardal Hull. Mae darparwyr telegyfathrebiadau eraill yn dal i ddibynnu ar fynediad i rwydwaith BT er mwyn cystadlu gyda BT. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran cyflenwi llinellau i rai grwpiau defnyddwyr, sef: defnyddwyr preswyl llais yn unig sefydlog, y rheini sydd y tu allan i ôl troed rhwydweithiau sy'n cystadlu (gan gynnwys rhwydwaith cebl Virgin Media a darparwyr sy'n defnyddio LLU) a busnesau sy'n defnyddio llinellau analog (sydd â llai o ddewisiadau amgen cystadleuol i BT, wrth gymharu â defnyddwyr preswyl sy'n prynu gwasanaethau llais mewn pecyn gyda band eang).
- 1.16 Fodd bynnag, rydyn ni'n gweld bod pŵer BT yn y farchnad yn llai na'r adeg roedden ni wedi cwblhau'r adolygiad yn 2014, oherwydd mwy o gystadleuaeth gan gystadleuwyr ar sail rhwydwaith fel TalkTalk, Sky a Virgin Media. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y twf cynyddol

⁶ Mae band cul yn cyfeirio at wasanaethau (gan gynnwys ffôn a ffacs) lle mae'r lled band sydd ar gael wedi'i gyfyngu gan y rhwydwaith sydd ei angen i gefnogi traffig ffôn. Mae'n wahanol i fand eang, lle mae modd delio â gwasanaethau sy'n defnyddio lled band uwch o lawer.

mewn galwadau symudol, er nad ydy hyn yn cael ei drosi i lai o ymlyniad at linellau sefydlog gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

- 1.17 Yn y tymor hwy, rydyn ni'n disgwyl y bydd ffonau llais sefydlog traddodiadol yn cael eu disodli gan wasanaethau llais a fydd yn cael eu cludo dros fand eang (wedi'u hwyluso gan y gallu i brynu band eang heb wasanaethau llais traddodiadol) a/neu wasanaethau dros rwydweithiau symudol. Wrth siapio ein dull gweithredu o ran atebion, rydyn ni eisiau darparu cymhellion i gystadleuwyr BT er mwyn buddsoddi mewn opsiynau amgen ar sail seilwaith, sy'n cynnig dewisiadau o wasanaethau llais i ddefnyddwyr. Rydyn ni'n disgwyl y bydd faint o wasanaethau llais ar sail IP sydd ar gael yn datblygu ymhellach yn ystod cyfnod yr adolygiad nesaf.
- 1.18 Ar gyfer cyfnod yr adolygiad hwn, bydd dal angen i BT ddarparu llinellau cyfanwerthol er mwyn sicrhau bod darparwyr sy'n cystadlu yn gallu gwasanaethu defnyddwyr adwerthu'n effeithiol, gan gynnwys y rheini mewn segmentau lle mae'r gystadleuaeth gan rwydweithiau eraill ar ei gwannaf. Fodd bynnag, i gydnabod y cynnydd mewn opsiynau amgen i wasanaethau llais sefydlog traddodiadol, rydyn ni'n dod i'r casgliad y dylai cynnyrch rhent llinell cyfanwerthol BT fod yn amodol ar rwymedigaethau codi ffioedd teg a rhesymol, yn hytrach na rheolaeth ffioedd ar sail costau.
- 1.19 Roedd ein Hadolygiad Strategol hefyd wedi nodi pwysigrwydd ansawdd gwasanaeth i ddefnyddwyr ac roedd wedi ystyried y dylai rheoleiddio llinellau sefydlog cyfanwerthol gefnogi hyn.⁷ Mae hyn yn bwysig nid yn unig o ran ansawdd gwasanaethau llais sefydlog, ond ar gyfer ansawdd y profiad band eang, oherwydd mae llinellau sefydlog yn ategiad pwysig i ddarparu band eang i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Rydyn ni felly'n cadw'r atebion ansawdd gwasanaeth ar gyfer rhent llinell cyfanwerthol, gan gynnwys safonau ansawdd gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol.⁸
- 1.20 Mae'r dyletswyddau rheoleiddiol rydyn ni'n eu rhoi ar BT yn y farchnad llinellau cyfnewid analog sefydlog yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.1 isod.

⁷ Ofcom, 2016. *Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol*, Adran 5.

⁸ Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r safonau ansawdd gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau rhent llinell cyfanwerthol a LLU fel rhan o'r adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Rydyn ni wedi ymgynghori ar gynigion sydd wedi cael eu halinio ar draws y cynnyrch, ac sy'n sicrhau cysondeb gyda'n dull gweithredu newydd arfaethedig i gymell Openreach i ragori ar y safonau ansawdd gwasanaeth, yn unol â'r cyfeiriad strategol sydd wedi'i nodi yn yr Adolygiad Strategol.

Tabl 1.1: Crynodeb o'r rheoleiddio ar BT yn y farchnad llinellau cyfnewid analog sefydlog (yn y DU ar wahân i Ardal Hull)

Dyletswyddau rheoleiddio ar BT	
Llinellau cyfnewid analog sefydlog	Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol Darparu mynediad rhwydwaith penodol ar ffurf WLR Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol ac EOI Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffioedd Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu Cyfrifyddu costau Ansawdd gwasanaeth: tryloywder a safonau

ISDN30 a ISDN2 cyfanwerthol

- 1.21 Yn raddol mae busnesau'n symud oddi wrth hen wasanaethau ISDN i wasanaethau llais newydd ar sail IP. Serch hynny, mae nifer o fusnesau bach a chanolig a busnesau mwy yn dal i ddefnyddio ISDN. Rydyn ni eto yn diffinio marchnadoedd ISDN30 a ISDN2 cyfanwerthol ar wahân, ac yn gweld bod gan BT bŵer sylweddol ym mhob un o'r marchnadoedd hyn yn y DU ar wahân i Ardal Hull.
- 1.22 Ar gyfer darparwyr telegyfathrebiadau sy'n gwasanaethu busnesau sydd heb ISDN ar hyn o bryd, neu'r rheini sy'n ychwanegu llinellau newydd, rydyn ni'n ystyried bod faint o opsiynau amgen ar sail IP sydd ar gael yn debyg o gyfyngu ar bŵer BT yn y farchnad. O'r herwydd, rydyn ni'n rhoi atebion wedi'u targedu ar gyfer ISDN gan gyfyngu'r rhan fwyaf o reoleiddio i linellau ISDN sydd eisoes yn bodoli yn unig, er mwyn diogelu cystadleuaeth ar gyfer y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn barod. I raddau helaeth rydyn ni'n dadreoleiddio darparu a rhentu llinellau newydd, ar ôl cyfnod pontio o 12 mis.
- 1.23 Er mwyn mynd i'r afael â pherygl codi prisiau gormodol am linellau ISDN presennol, rydyn ni'n cadw rheolaethau ffioedd ar wasanaethau ISDN30 ac ISDN2 cyfanwerthol ar sail ffioedd presennol. Mae'r dyletswyddau rheoleiddio rydyn ni'n eu rhoi ar BT yn y marchnadoedd ISDN yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.2 isod.

Tabl 1.2: Crynodeb o'r rheoleiddio ar BT yn y marchnadoedd ISDN (yn y DU ar wahân i Ardal Hull)

Dyletswyddau rheoleiddio ar BT	
ISDN30 ac ISDN2 (ar ôl cyfnod pontio o 12 mis)	<u>Pob llinell</u>
	Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu
	Cyfrifyddu costau
	<u>Llinellau presennol</u>
	Rheolaeth pris
	Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol
	Darparu mynediad rhwydwaith penodol ar ffurf WLR
	Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol ac EOI
	Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio
	Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffioedd
	Ansawdd gwasanaeth: tryloywder

Tarddiad galwadau cyfanwerthol

- 1.24 Mae tarddiad galwadau cyfanwerthol (WCO) yn golygu bod modd gwneud (yn hytrach na dim ond derbyn) galwadau dros linellau ffôn. Serch hynny, mae nifer y galwadau sy'n cael eu gwneud dros linellau sefydlog wedi bod yn disgyn ers nifer o flynyddoedd. Mae mwy a mwy o ddefnyddwyr preswyl a busnes yn defnyddio opsiynau amgen i wneud galwadau llais – ffonau symudol a gwasanaethau llais newydd ar sail IP gan gynnwys galwadau dros y rhyngwrwd o ffonau clyfar.
- 1.25 Mae ein hadolygiad wedi canfod er bod y gwasanaethau amgen hyn yn gweithredu fel cyfyngiad cystadleuol ar gyfer rhai mathau o alwadau, ac ar gyfer ar gyfer rhai defnyddwyr, nid ydynt eto yn yr un farchnad â galwadau llais llinell sefydlog. Rydyn ni felly wedi nodi marchnad ar wahân ar gyfer WCO.
- 1.26 Mae cyfran o'r farchnad BT o WCO yn dal yn agos at 50% ond mae wedi disgyn yn raddol oherwydd cystadleuaeth gan ddarparwyr fel Sky a TalkTalk sy'n cynnig gwasanaethau llais sefydlog, yn aml gyda band eang a gwasanaethau eraill.⁹ Yn ogystal â gostyngiad arall yng nghyfran BT o alwadau llais sefydlog, rydyn ni'n disgwyl cyfyngiad cynyddol gan wasanaethau'r tu allan i'r farchnad sydd wedi'i diffinio – yn benodol, o ffonau symudol a gwasanaethau llais ar sail IP – dros gyfnod yr adolygiad hwn. Rydyn ni felly'n dod i'r casgliad, er bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad WCO o hyd yn y DU ar wahân i Ardal Hull, mae ei bŵer yn y farchnad yn llai nag adeg ein hadolygiad yn 2013.

⁹ Fel y nodir uchod, mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant ein gwaith rheoleiddio LLU i fyny ac mae'n ychwanegu at gystadleuaeth gan rwydwaith cebl Virgin Media mewn sawl rhan o'r wlad.

- 1.27 Wrth ystyried y datblygiad hwn o gystadleuaeth llais sefydlog a'r opsiynau amgen sydd ar gael i nifer o ddefnyddwyr, rydyn ni'n rhoi pecyn o atebion ysgafnach ar BT yn y farchnad WCO. Yn benodol, rydyn ni wedi penderfynu:
- cyflwyno gofyniad i ffioedd WCO fod yn deg ac yn rhesymol. Cyn hyn, rydyn ni wedi gosod rheolaeth ffioedd ar sail costau;
 - dileu'r ddyletswydd dim gwahaniaethu'n ormodol sydd ar BT. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i BT ymateb i gystadleuaeth a phrisio'n fwy hyblyg, fel mae modd i'w gystadleuwyr cyfanwerthol ei wneud yn barod.
- 1.28 Bydd yn dal yn rhaid i BT ddarparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol er mwyn sicrhau bod darparwyr sy'n cystadlu yn gallu cynnig gwasanaethau galwadau i ddefnyddwyr adwerthu. Mae'r dyletswyddau rheoleiddio rydyn ni'n eu rhoi ar BT yn y farchnad WCO yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.3 isod.

Tabl 1.3: Crynodeb o'r rheoleiddio ar BT yn y farchnad WCO (yn y DU ar wahân i Ardal Hull)

Dyletswyddau rheoleiddio ar BT	
WCO	Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffioedd Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu Cyfrifyddu costau

Ardal Hull

- 1.29 Rydyn ni wedi diffinio tair marchnad mynediad band cul cyfanwerthol a marchnad ar gyfer WCO yn Ardal Hull, ac wedi canfod fod gan KCOM bŵer sylweddol yn y marchnadoedd hyn.
- 1.30 Nid oes dim cystadleuaeth effeithiol gan weithredwyr LLU na chebl yn Ardal Hull – mae cystadleuaeth yn y farchnad llais sefydlog adwerthu'n dibynnu i raddau helaeth ar werthwyr yn cael mynediad at gynnyrch cyfanwerthol KCOM.
- 1.31 Rydyn ni'n mynnu bod KCOM yn darparu mynediad i'r rhwydwaith ar delerau teg a rhesymol (gan gynnwys ffioedd) yn y marchnadoedd WCO a WFAEL. Rydyn ni'n dileu'r ddyletswydd dim gwahaniaethu'n ormodol ar KCOM yn y farchnad WCO, ac ystyried y cynnydd mewn cyfyngiadau cystadleuol o'r tu allan i'r farchnad sydd wedi cael ei diffinio (yn fwyaf penodol o ffonau symudol).
- 1.32 Ar gyfer y marchnadoedd ISDN30 ac ISDN2 cyfanwerthol, yn yr un modd â gweddill y DU, rydyn ni'n targedu ein hatebion, gan ganolbwyntio rheoleiddio ar linellau presennol a gan ddadreoleiddio llinellau newydd i raddau helaeth ar ôl cyfnod pontio o 12 mis.
- 1.33 Mae'r dyletswyddau rheoleiddio ar KCOM ym mhob un o'r marchnadoedd yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.4.

Tabl 1.4: Crynodeb o'r rheoleiddio ar KCOM yn y marchnadoedd band cul a WCO (yn Ardal Hull)

Dyletswyddau rheoleiddio ar KCOM	
llinellau cyfnewid analog sefydlog	<p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffoedd</p> <p>Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu</p> <p>Cyfrifyddu costau</p>
ISDN30 ac ISDN2 (ar ôl cyfnod pontio o 12 mis)	<p><u>Pob llinell</u></p> <p>Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu</p> <p>Cyfrifyddu costau</p> <p><u>Llinellau presennol</u></p> <p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffoedd</p>
WCO	<p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffoedd</p> <p>Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu</p> <p>Cyfrifyddu costau</p>

Terfynu galwadau cyfanwerthol

- 1.34 Mae terfynu galwadau cyfanwerthol (WCT) yn wasanaeth cyfanwerthol ar gyfer terfynu galwadau llais i rifau daearyddol yn y DU (rhifau sy'n dechrau gyda 01 a 02). Mae'n farchnad bwysig i gefnogi cystadleuaeth effeithiol rhwng darparwyr telegyfathrebiadau oherwydd bydd pob galwad i rwydwaith gwahanol yn golygu cyfradd terfynu.
- 1.35 Rydyn ni'n canfod bod gan y 285 darparwr telegyfathrebiadau (gan gynnwys BT a KCOM) roedden ni wedi'u nodi yn yr adolygiad hwn fel rhai sy'n terfynu galwadau ar rifau daearyddol yn y DU bŵer sylweddol yn y farchnad mewn perthynas â'r rhifau hynny, oherwydd na all y sawl sy'n ffonio (neu'n fwy penodol, darparwr telegyfathrebiadau'r sawl sy'n ffonio) ddewis pa ddarparwr i gysylltu â nhw wrth wneud galwad.
- 1.36 Mae'r dyletswyddau rheoleiddio rydyn ni'n eu defnyddio gyda BT a darparwyr eraill sydd â phŵer sylweddol yn y marchnadoedd WCT yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1.5 isod. Mae

angen rhoi dyletswyddau ychwanegol ar BT oherwydd y nifer uchel o ddefnyddwyr mae'n eu gwasanaethu wrth gymharu â darparwyr telegyfathrebiadau eraill.

Tabl 1.5: Crynodeb o reoleiddio ar BT a darparwyr eraill sydd â phŵer sylweddol yn y marchnadoedd WCT

	Dyletswyddau rheoleiddio ar BT	Dyletswyddau rheoleiddio ar bob darparwr arall sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad (gan gynnwys KCOM)
WCT	<p>Rheolaeth ffioedd (gan gynnwys dyletswydd hysbysu pris)</p> <p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu</p> <p>Cyfrifyddu costau</p>	<p>Rheolaeth ffioedd (gan gynnwys dyletswydd hysbysu pris)</p> <p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p>

Rheolaeth pris

- 1.37 Rydyn ni'n rhoi dull sy'n fwy cyson a thryloyw ar waith ar gyfer rheoleiddio cyfraddau terfynu, gan gynnwys defnyddio rheolaeth ffioedd ar gyfer WCT ar bob darparwr. Mae hyn yn disodli ein dull gweithredu blaenorol a oedd yn golygu mai dim ond BT oedd yn destun rheolaeth ffioedd, ac roedd darparwyr eraill gyda phŵer sylweddol yn y farchnad yn rhwym wrth ofyniad am ffioedd teg a rhesymol, gyda rhywfaint o bosibilrwydd ar gyfer amrywio o gyfradd ffioedd wedi'i rheoli BT.
- 1.38 Rydyn ni hefyd yn symleiddio'r trefniadau rheolaeth ffioedd drwy gyflwyno un cap cyfradd sefydlog, yn hytrach na rheolaeth ar sail y cyfraddau cyfartalog sy'n cael eu codi ar adegau gwahanol. Mae manteision prisiau adeg o'r dydd wedi gostwng llawer mewn marchnadoedd terfynu nawr ac mae hyn yn cynrychioli ffordd syml, dryloyw a chymesur o reoleiddio cyfraddau terfynu.¹⁰
- 1.39 Mae'r rheolaeth ffioedd FTR yn seiliedig ar gost ychwanegol tymor hir (LRIC).¹¹ Rydyn ni'n lleihau'r ffi gyfartalog nominal bresennol o 0.0346 ceiniog y funud i lawr i 0.0303 ceiniog y funud yn 2018/19 (mewn prisiau real 2016/17) ac felly gan ostyngiad go iawn sy'n oddeutu 6% y flwyddyn. Mae hyn yn golygu amcangyfrif o ostyngiad cyffredinol sy'n oddeutu £6m

¹⁰ Mae cyfraddau terfynu symudol wedi cael eu capio drwy gyfeirio at un gyfradd sefydlog ers mis Mai 2015: edrychwch ar Ofcom, 2015. *Adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol 2015-2018*.

¹¹ Costau Ychwanegol Tymor Hir (LRIC) ydy'r costau hynny sy'n cael eu hachosi drwy ddarparu cynnydd neu wasanaeth wedi'i ddiffinio – hy y costau hynny na fyddent yn digwydd pe na bai'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu mwyach, ac mae'r holl wasanaethau a chynnyrch eraill yn dal i gael eu darparu.

dros y tair blynedd, neu oddeutu 6c y flwyddyn fesul llinell ar gyfartaledd.¹² Mae'r cap ar ein model costau 'gwaelod i fyny' yn Nhabl 1.6 isod:

Tabl 1.6: Cap cyfradd terfynu (ppm) costau (ppm) a gwerth X yn fformiwla CPI-X (%) ar gyfer pob darparwr ¹³

	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	Go iawn	Go iawn	Rhagolwg	Rhagolwg
Cap Nominal	0.0346	0.0323		
Cost LRIC (prisiau 2016/17)	0.0322	0.0307	0.0286	0.0269
Gwerth X yn fformiwla CPI-X	n/a	n/a	-6.9%	-6.1%

Ffynhonnell: Model WCT 2017.

Cylchedau cydgysylltu

- 1.40 Pan fydd dau ddarparwr telegyfathrebiadau yn pasio galwadau llais rhwng eu rhwydweithiau, bydd cylchedau cydgysylltu'n darparu'r seilwaith ffisegol sy'n golygu bod modd llwybro galwadau rhyngddyn nhw.
- 1.41 Rydyn ni'n rheoleiddio cylchedau cydgysylltu BT yn y DU, ar wahân i Ardal Hull, er mwyn mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o'i bŵer sylweddol yn y marchnadoedd WCO a WCT. Rydyn ni wedi dod i'r casgliad y dylen ni barhau i reoleiddio cylchedau cydgysylltu BT ar sail technoleg Amblecs Amrywiadau Amser (TDM) draddodiadol. Ar ben hynny, rydyn ni'n disgwyl i BT ymgysylltu â'r diwydiant yn ehangach wrth iddo ddechrau symud i wasanaethau llais ar sail IP yn ystod cyfnod yr adolygiad.
- 1.42 Rydyn ni'n defnyddio atebion gyda darpariaeth BT o gylchedau cydgysylltu, gan gynnwys rheolaeth ffioedd, fel sy'n cael ei nodi yn Nhabl 1.7. Ar gyfer y rheolaeth ffioedd, rydyn ni'n cadw'r ffioedd ar gyfer basged o wasanaethau cydgysylltu TDM ar eu lefel bresennol mewn termau real (hy cap CPI+0%) a ddaw i rym o 1 Rhagfyr 2017.
- 1.43 Rydyn ni hefyd yn rheoleiddio cylchedau cydgysylltu KCOM yn Ardal Hull, er mwyn mynd i'r afael â'i bŵer sylweddol yn y farchnad WCO, fel sy'n cael ei nodi yn Nhabl 1.7. Mae hyn yn

¹² Mae hyn yn seiliedig ar dybiaeth o 37.0bn munud o draffig net am i mewn bob blwyddyn ar sail data o 2016 (33.7bn munud o draffig symudol-i-sefydlog a ~3.3bn munud o draffig rhyngwladol am i mewn) a 33.5m o linellau sefydlog bob blwyddyn (gan gynnwys sianeli ISDN). Ffynhonnell: daw'r cyfraddau o fodel costau terfynu Ofcom a gyhoeddir gyda'r datganiad hwn; daw'r data am niferoedd o dablau data telegyfathrebiadau chwarterol Ofcom.

¹³ Bydd y rheolaeth ffioedd WCT yn dechrau gyda chynnod pontio o ddau fis (1 Rhagfyr 2017 i 31 Ionawr 2018) lle bydd cyfraddau BT yn cael eu capio'n wastad. Bydd rheolaeth ffioedd BT a'r holl ddarparwyr sydd â SMP yn WCT cychwyn o 1 Chwefror 2018 i 31 Mawrth 2021. O ganlyniad, bydd y gost a'r cap 2018/19 a ddengys yma yn gyfartaledd wedi'i bwysoli o'r rhan sy'n berthnasol o 2017/18 ac o 2018/19 a felly mae hyn yn gwahaniaethu ychydig o'r gost yn 2018/19 a ddangoswyd yn Ffigwr 15.5.

cynnwys cadw gofyniad codi ffioedd teg a rhesymol mewn perthynas â darparu'r cylchedau hyn.

Tabl 1.7: Crynodeb o'r rheoleiddio ar gylchedau cydgysylltu BT a KCOM

	Dyletswyddau rheoleiddio ar BT	Dyletswyddau rheoleiddio ar KCOM
Cydgysylltu	<p>Rheolaeth pris</p> <p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Gofyniad i beidio â gwahaniaethu'n ormodol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffioedd</p> <p>Gwahanu swyddogaethau cyfrifyddu</p> <p>Cyfrifyddu costau</p> <p>Ansawdd gwasanaeth: tryloywder</p>	<p>Darparu mynediad rhwydwaith ar gais rhesymol</p> <p>Cyhoeddi Cynnig Cyfeirio</p> <p>Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffioedd</p>

Ymgynghoriad Ewropeaidd

- 1.44 Fe wnaethon ni roi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd, BEREC ac awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill o'n cynigion terfynol ar gyfer ein dadansoddiad o'r farchnad a'n hatebion ar ôl cwblhau proses ymgynghori ddomestig ar y 26 Hydref 2017 yn unol ag Erthygl 7 y Gyfarwyddeb Fframwaith. Fe wnaeth y Comisiwn gyflwyno cais am wybodaeth ar 9 Tachwedd 2017 ac fe wnaethon ni ei ateb ar y 14 Tachwedd 2017.
- 1.45 Fe wnaethon ni dderbyn penderfyniad y Comisiwn yn cynnig sylwadau am ein hysbysiad yn unol ag Erthygl 7 (3) y Gyfarwyddeb Fframwaith ar 24 Tachwedd 2017¹⁴. Yn arbennig:
- “Mae'r Comisiwn yn gwahodd Ofcom i ddilyn esblygiad poblogrwydd a'r potensial gyfnewidol sydd gan gwasanaethau IP a symudol ar gyfer llinellau analog ac ISDN. Mae hefyd yn ymddangos ei bod hi'n bwysig i ddilyn effeithiau ymrwymiad BT i leihau ei brisiau masnachol ar gyfer gwasanaethau ffôn llinell dir yn unig, o gofio fod hyn yn debygol o fynd i'r afael â phryderon rhai o gateoriau'r defnyddwyr sydd wedi'u seilio ar linellau analog y mae Ofcom yn bwriadu eu hamddiffyn drwy reoleiddio marchnadoedd y WFAEL a WCO.”
- 1.46 Gan gymryd sylwadau'r Comisiynydd i ystyriaeth:
- a) byddwn yn parhau i fonitro poblogrwydd gwasanaethau IP a symudol fel rhan o'n ymchwil parhaol i ddatblygiadau'r farchnad telathrebu;

¹⁴ Bydd llythyr y Comisiwn yn cael ei gyhoeddi ar y wefan: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/narrowband-market-review>

- b) byddwn yn monitro yn agos defnydd BT o'i gynnig gwirfoddol i gapio prisiau masnachol ar gyfer cwsmeriaid llais yn unig ac effaith cyffredinol ar ddefnyddwyr; a
- c) byddwn yn parhau i fonitro tueddiadau prasio ar gyfer gwasanaethau telathrebu yn cynnwys gwasanaethau llais yn unig.